



**Ceisiadau am Ddeunydd (Clipiau Archif) o Raglenni  
Cyflwyniad – Egwyddorion Sylfaenol**

Dyma'r camau ddylech chi eu dilyn wrth geisio caffael / cynnwys clipiau o raglenni ar gyfer eich cynhyrchiad.	<ul style="list-style-type: none"><li>• Os ydy'r deunydd allan o raglenni S4C rhaid i chi bob amser gael caniatâd i ddefnyddio'r clipiau gan ddeiliad yr hawliau, cytuno ar gydnabyddiaeth addas a thalu'r ffi berthnasol am ddefnyddio'r clipiau.</li><li>• Os ydy'r deunydd allan o raglen sy'n cynnwys perfformiadau e.e. gan actorion neu gerddorion bydd rhaid i chi sicrhau ac, os oes galw am hynny, gwneud taliadau'n unol â'r cytundebau undebol perthnasol.</li><li>• Rhaid i chi bob amser ddynodi/gydnabod yng ngwaith papur eich cynhyrchiad [PAC] beth ydy tarddiad y deunydd [prun ai ydyn nhw'n cynnwys perfformiadau ai peidio, neu ddeunydd 3<sup>ydd</sup> parti neu yn gynnwys cyffredinol]. Dydy hi ddim yn ddigon i roi 'S4C' fel y ffynhonnell.</li><li>• Edrychwch, plîs, ar y wybodaeth fyddwch chi wedi ei dderbyn gan S4C gyda'r deunydd a chadwch hwn yn ddiogel e.e. teitl y rhaglen, rhif cynhyrchiad, cwmni cynhyrchu ayb.</li></ul>
Beth fydd rhaid i chi ei wneud bob amser os dewch chi i mewn i S4C i ddethol y deunydd.	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl i sicrhau bod S4C yn gallu darparu'r deunydd mwyaf addas i chi gael golwg arno – h.y. y deunydd rydych chi ei angen a chyd-destun y defnydd ohono.</li><li>• Wrth ddethol deunydd rhaid i chi fanlyu am gynnwys y clipiau ar y ffurflen a gyflwynir i chi – e.e. enwau'r actorion neu berfformwyr, manylion y gerddoriaeth sy'n cael ei berfformio, manylion unrhyw ddeunydd gan 3<sup>ydd</sup> parti e.e. deunydd du a gwyn, sleidiau, portreadau a ffotograffau.</li></ul>
Beth fydd rhaid i chi ei wneud os ydych chi am i S4C ddewis deunydd drosoch chi.	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl i sicrhau bod S4C yn gallu darparu'r deunydd mwyaf addas i chi gael golwg arno.</li><li>• Manylion am y cyd-destun y bwriedwch gynnwys y deunydd ynddo.</li></ul>
Beth fyddwn ni bob amser yn ei wneud pan fyddwch chi'n gwneud cais am ddeunydd.	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gofyn i chi am wybodaeth am y cynhyrchiad rydych chi'n bwriadu defnyddio'r clipiau ynddo e.e. teitl y cynhyrchiad neu'r darlledwr a chyd-destun ei ddefnyddio.</li><li>• Cadarnhau y manylion sydd ar gael am darddiad y deunydd e.e. teitl y rhaglen, rhif y cynhyrchiad a'r cwmni, dyddiad y darllediad gwreiddiol.</li><li>• Rhoi'r wybodaeth sydd ar gael am y ffioedd perfformio, manylion y gerddoriaeth neu unrhyw ddeunydd 3<sup>ydd</sup> parti.</li></ul>



<b>Gwybodaeth Ychwanegol</b>	
<p>Dyma'r manau eraill lle gallwch chi ganfod rhagor o wybodaeth am gaffael a defnyddio clipiau o raglenni neu weithrediad unrhyw gytundeb undebau llafur.</p>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Telerau Masnach S4C a'r Adolygiad o'r Telerau Masnach <a href="http://www.s4c.cymru/production/downloads/guidelines/c_ad_tel_mas.pdf">http://www.s4c.cymru/production/downloads/guidelines/c_ad_tel_mas.pdf</a> <a href="http://www.s4c.cymru/production/downloads/guidelines/ail_argraffiad_telerau_masnach.pdf">http://www.s4c.cymru/production/downloads/guidelines/ail_argraffiad_telerau_masnach.pdf</a></li><li>• TAC <a href="http://www.tac-cymru.co.uk/home/">http://www.tac-cymru.co.uk/home/</a> neu <a href="mailto:post@tac-cymru.co.uk">post@tac-cymru.co.uk</a></li><li>• MCPS- PRS <a href="https://www.prsformusic.com/">https://www.prsformusic.com/</a></li><li>• Undeb yr actorion (Equity) <a href="http://www.equity.org.uk">www.equity.org.uk</a></li><li>• Phonographic Performance Ltd <a href="http://www.ppluk.com">www.ppluk.com</a></li><li>• Undeb yr Awduron (Writers Guild) <a href="http://writersguild.org.uk/">http://writersguild.org.uk/</a></li><li>• Undeb y Cerddorion (Musicians Union) <a href="http://www.musiciansunion.org.uk">www.musiciansunion.org.uk</a></li></ul>
<b>Pa ddefnydd fyddwch chi'n ei wneud o'r clipiau?</b>	
<p>Ai eich bwriad ydy defnyddio'r clipiau ar gyfer cynhyrchiad i'w ddarlledu ar S4C?</p>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Os ydy'r deunydd allan o raglen gan S4C rhaid i chi bob amser gael caniatâd i ddefnyddio'r clipiau gan ddeiliad yr hawliau, cytuno ar gydnabyddiaeth addas a thalu'r ffi berthnasol am ddefnyddio'r clipiau <a href="http://www.s4c.cymru/production/downloads/guidelines/ail_argraffiad_telerau_masnach.pdf">[http://www.s4c.cymru/production/downloads/guidelines/ail_argraffiad_telerau_masnach.pdf]</a>, gwneud taliadau detholiad am unrhyw berfformiadau [e.e. actorion, cerddorion] yn unol â chytundebau'r undebau talent perthnasol, clirio hawliau cerddoriaeth a sicrhau hawliau defnyddio deunydd unrhyw 3<sup>ydd</sup> parti [e.e. deunydd archif, ffotograffau, portreadau] oddi wrth y perchnogion. Bydd S4C yn codi tâl arnoch chi am drosglwyddo'r deunydd. Bydd S4C neu ddeiliad y drwydded yn rhoi'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn i chi glirio'r hawliau ar y deunydd.</li><li>• Os ydy'r deunydd allan o raglen [hawlfraint S4C neu dan drwydded i S4C] sydd yn amserlen gyfredol S4C neu ar fin cael ei darlledu efallai bydd y defnydd ohono yn eich cynhyrchiad yn cyfrif fel 'dibenion hyrwyddo' ar yr amod eich bod yn cyfeirio at ddyddiad ac amser y darllediad, eich bod yn clirio'r hawliau cerddoriaeth perthnasol a chlirio unrhyw ddeunydd 3<sup>ydd</sup> parti neu ddeunydd archif os nad ydy rhain wedi eu clirio i'w defnyddio i ddibenion hyrwyddo.</li></ul>

<p>Ydy'r deunydd ar gyfer ei ddefnyddio mewn cynhyrchiad i ddarllledwr arall?</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os ydy'r deunydd yn dod raglen sydd dan drwydded i S4C bydd rhaid i chi gysylltu â deiliad yr hawliau i gaffael y clipiau, cael y trwyddedau perthnasol a chyrchu'r wybodaeth i wneud taliadau am unrhyw berfformiadau yn unol ag unrhyw gytundeb yr undebau talent, clirio hawliau unrhyw gerddoriaeth a sicrhau hawliau i ddefnyddio unrhyw ddeunydd 3<sup>ydd</sup> parti [e.e. deunydd archif, ffotograffau, portreadau] oddi wrth y perchnogion.</li> <li>• Os ydy'r clip yn dod allan o raglen lle mae'r hawlfraint gan S4C bydd angen i chi gael trwydded i'r clip drwy Uned Rheoli Cynnwys S4C [ <a href="mailto:allinlibrary@s4c.cymru">allinlibrary@s4c.cymru</a>]. Bydd angen i chi dalu i S4C am ddefnyddio'r clip ar y raddfa sydd wedi ei chytuno, gwneud y taliadau perthnasol am unrhyw berfformiadau yn unol â chytundeb yr undeb talent perthnasol [breindal aml-gyfrwng ar gyfer darllediadau tu allan i Gymru], clirio unrhyw gerddoriaeth a sicrhau hawliau i ddefnyddio unrhyw ddeunydd 3<sup>ydd</sup> parti [e.e. deunydd archif, ffotograffau, portreadau] oddi wrth y perchnogion. Bydd S4C yn codi ffi ymchwil arnoch chi ac am drosglwyddo'r deunydd ac efallai byddwn ni'n gofyn am gopi o'r cynhyrchiad terfynol i'w gadw a chyfeirio'n ôl ato.</li> </ul>
<p>Ydy'r deunydd ar gyfer ei ddefnyddio mewn prosiect masnachol [e.e. hyrwyddo annarlledol, marchnata neu ddiben corfforaethol].</p> <p>Ydy'r deunydd ar gyfer prosiect addysgiadol sydd i'w ddsbarthu'n ehangach?</p> <p>Ydy'r deunydd i gael ei ddefnyddio mewn cynhyrchiad cyfrwng newydd e.e. DVD neu raglen aml-gyfrwng neu ddysgu ar-lein?</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os ydy'r deunydd yn dod o raglen sydd dan drwydded i S4C bydd rhaid i chi gysylltu â deiliad yr hawliau i gaffael y clipiau, cael y trwyddedau perthnasol a chyrchu'r wybodaeth i wneud taliadau am unrhyw berfformiadau yn unol ag unrhyw gytundeb yr undebau talent, clirio hawliau unrhyw gerddoriaeth a sicrhau hawliau i ddefnyddio unrhyw ddeunydd 3<sup>ydd</sup> parti [e.e. deunydd archif, ffotograffau, portreadau] oddi wrth y perchnogion.</li> <li>• Os ydy'r clip yn dod allan o raglen lle mae'r hawlfraint gan S4C bydd angen i chi gael trwydded i'r clip drwy Uned Rheoli Cynnwys S4C [ <a href="mailto:allinlibrary@s4c.cymru">allinlibrary@s4c.cymru</a>] efallai bydd angen i chi dalu i S4C am ddefnyddio'r clip ar y raddfa sydd wedi ei chytuno, gwneud y taliadau perthnasol am unrhyw berfformiadau yn unol â chytundeb yr undeb talent perthnasol, clirio unrhyw gerddoriaeth a sicrhau hawliau i ddefnyddio unrhyw ddeunydd 3<sup>ydd</sup> parti [e.e. deunydd archif, ffotograffau, portreadau] oddi wrth y perchnogion. Bydd S4C yn codi ffi ymchwil arnoch chi ac am drosglwyddo'r deunydd ac efallai byddwn ni'n gofyn am gopi o'r prosiect terfynol i'w gadw a chyfeirion ôl ato.</li> </ul>
<p>Ydych chi angen copi o raglen gyfan i ddibenion addysgiadol neu academiaidd e.e. defnydd cyfyngedig mewn tiwtorial</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os ydy'r rhaglen yn un sydd dan drwydded i S4C bydd rhaid i chi gysylltu'n uniongyrchol â deiliad yr hawliau.</li> <li>• Os ydy'r rhaglen yn un sydd dan hawlfraint i S4C bydd angen i chi gysylltu â Gwifren</li> </ul>



neu drafodaeth, neu ddibenion  
academaidd preifat?

Gwylwyr S4C i holi am ffurflen cais ac yna ei danfon at [Ceisiadauaddysg@s4c.cymru](mailto:Ceisiadauaddysg@s4c.cymru) .  
Efallai y bydd tâl am y gwasanaeth hwn a bydd y deunydd yn cael ei ryddhau yn benodol  
ar gyfer dibenion addysgiadol/academaidd yn unig. Byddai'n rhaid ail drafod telerau ar  
gyfer yr hawl i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw ddiben arall.

<p>Ydych chi'n bwriadu arddangos y deunydd yn gyhoeddus/mewn dangosiad yng Nghymru?</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os ydy'r deunydd yn dod o raglen sydd dan drwydded i S4C bydd rhaid i chi gysylltu â deiliad yr hawliau i gaffael y clipiau, cael y trwyddedau perthnasol a chyrchu'r wybodaeth i wneud taliadau am unrhyw berfformiadau yn unol ag unrhyw gytundeb yr undebau talent, clirio unrhyw gerddoriaeth a sicrhau hawliau i ddefnyddio unrhyw ddeunydd 3<sup>ydd</sup> parti [e.e. deunydd archif, ffotograffau, portreadau] oddi wrth y perchnogion.</li> <li>• Bydd pob cais yn cael ei ystyried achos wrth achos. Os ydy'r clip yn dod allan o raglen lle mae'r hawlfraint gan S4C bydd angen i chi gael trwydded i'r clip drwy 0 Uned Rheoli Cynnwys S4C [<a href="mailto:allinlibrary@s4c.cymru">allinlibrary@s4c.cymru</a>]. Efallai bydd angen i chi dalu i S4C am ddefnyddio'r clip ar y raddfa sydd wedi ei chytuno. Efallai bydd S4C yn codi tâl arnoch chi am drosglwyddo'r rhaglen. Bydd rhaid i chi gael caniatâd yr holl gyfranwyr a gallai hyn olygu gwneud y taliadau perthnasol am unrhyw berfformiadau [e.e. actorion, cerddorion] yn unol â chytundeb yr undeb talent perthnasol, clirio unrhyw hawliau cerddoriaeth a chaffael hawliau i ddefnyddio unrhyw ddeunydd 3<sup>ydd</sup> parti [e.e. deunydd archif, ffotograffau, portreadau] oddi wrth y perchnogion. Os ydy'r gynulleidfa'n talu ffi bydd S4C yn gofyn bod canran o'r elw'n cael ei ddosbarthu i'r holl gyfranwyr sy'n gymwys. Os nad ydy'r gynulleidfa'n talu ffi bydd angen i chi gysylltu â'r undebau talent a cherddoriaeth perthnasol i ofyn am ganiatâd i'w ddefnyddio.</li> </ul>
<p>Ai ar gyfer paratoi rîl hyrwyddo o'ch gwaith eich hunan mae'r deunydd e.e. fel actor, cerddor, person camera?</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os ydy'r deunydd yn dod o raglen sydd dan drwydded i S4C bydd rhaid i chi gysylltu â deiliad yr hawliau i gaffael y clipiau.</li> <li>• Os ydy'r deunydd dan hawlfraint i S4C bydd angen i chi roi sicrwydd na fydd y deunydd yn cael ei ddarlledu ar unrhyw lwyfan, nac yn mynd i gael ei ryddhau i 3<sup>ydd</sup> parti nac yn mynd i gael ei ecsploetio'n fasnachol.</li> <li>• Os na allwch gydymffurfio â'r meini prawf uchod yna bydd arnoch angen trwydded ar y deunydd drwy Uned Rheoli Cynnwys S4C [<a href="mailto:allinlibrary@s4c.cymru">allinlibrary@s4c.cymru</a>]. Bydd rhaid i chi dalu S4C am ddefnyddio'r deunydd ar y raddfa sydd wedi ei chytuno. Bydd S4C yn codi ffi ymchwil arnoch chi ac am drosglwyddo'r deunydd. Bydd rhaid i chi gael caniatâd pawb a gallai hyn olygu gwneud y taliadau perthnasol am unrhyw berfformiadau [e.e. actorion, cerddorion] yn unol â chytundeb yr undeb talent perthnasol, clirio unrhyw hawliau cerddoriaeth a chaffael hawliau i ddefnyddio unrhyw ddeunydd 3<sup>ydd</sup> parti [e.e. deunydd archif, ffotograffau, portreadau] oddi wrth y perchnogion.</li> </ul>
<p>Ydych chi'n gwneud cais am gopi o raglen gyfan?</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os ydy'r rhaglen yn un sydd dan drwydded i S4C bydd rhaid i chi gysylltu'n uniongyrchol â deiliad yr hawliau.</li> </ul>



	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ni fydd S4C yn rhyddhau copïau fformat darlledu o raglen gyfan lle mae'r hawlfraint ym meddiant S4C.</li><li>• Bydd ceisiadau am gopïau DVD i'w gwyllo i ddibenion ymchwil, gyda'r bwriad pellach efallai o wneud cais am ddeunydd, yn cael eu hystyried achos wrth achos a chodir tâl am y gwasanaeth hwn.</li></ul>
--	---

**31.10.2018**